Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Cymraeg

Llafaredd/Darllen: BARDDONIAETH AM GOED

GWEITHGAREDD 2: TAFLEN YR ATHRO

Nodau'r sesiwn

Nod y sesiwn hon yw cyflwyno nifer o gerddi am goed gan feirdd o Gymru a disgyblion ysgol (dylai athrawon ddewis y cerddi mwyaf addas ar gyfer y dosbarth/grwpiau gwahanol). Ceir cyfle i ymarfer siarad a gwrando wrth baratoi ar gyfer cyflwyniad ffurfiol, yn ogystal â siarad mewn grwpiau anffurfiol neu drafodaethau pâr ac i dynnu sylw at bwysigrwydd coed o fewn ein hetifeddiaeth ddiwylliannol.

Cyflwyniad

Gan ddefnyddio'r amlinelliad o goeden (Taflen y disgybl), gellid gofyn i'r disgyblion nodi geiriau a/neu ddisgrifiadau sy'n gysylltiedig â choed. (Ceir llawer o syniadau eraill am sut i sbarduno ysgrifennu creadigol ar sail cerddi yn y gyfrol Pedwar Pŵdl Pinc a'r Tei yn yr Inc, Denu Plant ar Farddoniaeth gan Myrddin ap Dafydd, Gwasg Carreg Gwalch, 1998.)

Prif ran

Dylai'r athro/athrawes (neu ddisgybl a ddewiswyd yn ofalus) ddarllen y cerddi i'r dosbarth. Ar ôl darllen y gerdd, gellid gofyn neu drafod **un neu fwy** o'r cwestiynau canlynol, yn gyntaf fel dosbarth cyfan, yna mewn parau, ac yn olaf mewn grwpiau o bedwar (mae'r cwestiynau hyn yn cael eu hail-adrodd ar Daflen y Disgybl):

1. Ydi'r gerdd hon yn eich atgoffa o unrhyw beth yr ydych wedi'i weld erioed, neu sydd wedi digwydd i chi erioed?
2. A yw'r gerdd hon yn eich atgoffa o unrhyw beth yr ydych wedi'i ddarllen o'r blaen?
3. A oes yna unrhyw beth am y gerdd hon sy'n eich drysu, oes geiriau anodd neu rhywbeth sy'n ymddangos yn rhyfedd neu'n od i chi?
4. A ydych chi yn hoffi unrhyw beth am y gerdd hon yn ei chyfanrwydd? A oes geiriau neu ymadroddion sy'n arbennig o ystyrlon, emosiynol neu effeithiol i chi?

Cysylltiadau cwricwlaidd: Gofynion y CC Cymraeg 2008:

Llafaredd

Sgiliau: 1,2,3,7
Ystod: 1, 2,3,4,5,6

Darllen

Sgiliau: 2,5
Ystod: 1,2,3

Cysylltiadau Eraill:

Datblygu Sgiliau Cyfathrebu
Datblygu Sgiliau Meddwl
ADC&DF
ABCh

Offer angenrheidiol

Copïau o'r cerddi a ddarparwyd:

'Yng Nghoed y Felenrhyd' gan rai o ddisgyblion Ysgol Eifionydd, Porthmadog, gyda chymorth Twm Morys

'Coed Aberneint' gan rai o ddisgyblion Ysgol y Gader, Dolgellau, gyda chymorth Twm Morys

'Y Goeden Afal' gan John Hywyn (Cylchoedd, D Brown a'i Feibion 1980)

'Y Goeden' gan W. Rhys Nicholas (Cynhaeaf Cymysg, Gol. Gloria Davies, Llyfrau'r Faner)

'Coed' gan R Gerallt Jones (Cynhaeaf Cymysg, Gol. Gloria Davies, Llyfrau'r Faner)

Deunyddiau ar gyfer gwneud collage, neu fynediad at gyfrifiaduron gyda rhaglen sy'n newid neu'n creu delweddau (e.e. gellid defnyddio Clip Art gyda Microsoft Word).

Taflen y Disgybl – amlinelliad coeden

Taflen y Disgybl – ar gyfer Hunan-Werthuso neu Werthuso gan gyfaill.

3720/06/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Cymraeg

Llafaredd/Darllen:
BARDDONIAETH AM GOED

5. A ydych chi yn casáu unrhyw beth am y gerdd hon?
6. Pe gallech arddangos y gerdd rywle, ble fyddai'r lle gorau i wneud hynny?
7. Pe gallech siarad â'r bardd, beth fyddech chi'n ei ofyn iddo?
8. Wrth ddarllen y gerdd, pa fath o olygfa sy'n dod i'ch meddwl? Ble gredwch chi mae'r bardd o fewn yr olgyfa honno?
9. Pe byddai'r gerdd hon yn rhan o stori, pa fath o stori fyddai hi?
10. Pe byddech yn cael dewis sut dylai person ddarllen y gerdd hon, pa fath o lais fyddai orau? Pe byddech yn dewis cerddoriaeth i'w chwarae yn y cefndir, pa fath o gerddoriaeth fyddech chi'n ei ddefnyddio?

Datblygiad

Gan ddefnyddio'r daflen gwestiynau i'w helpu i fframio eu hymatebion personol, gellid gofyn i'r disgyblion greu anodiadau/collage darluniadol o gwmpas un o'r cerddi, i ddangos sut maent wedi dehongli'r gerdd honno. Gallent dynnu lluniau ar gopi caled o'r gerdd neu chwilio am ddelweddau Clipart/o'r We i'w hychwanegu at gopi electronig o'r gerdd. Gallent hyd yn oed greu ffeil PowerPoint neu fideo o'r golygfeydd a'r synau y maent yn cysylltu gyda llinellau penodol o fewn y gerdd, neu gyda'r gerdd yn ei chyfanrwydd. Gallent wedyn gyflwyno eu dehongliadau i bartner, yr athro neu'r dosbarth cyfan, gan ddefnyddio eu lluniau (nid brawddegau ysgrifenedig) i helpu'r cyflwyniad. Dylai'r athro/athrawes annog y disgyblion i drafod ac ystyried y meini prawf llwyddiant (gweler y daflen werthuso) wrth baratoi eu cyflwyniadau.

Gwerthusiad

Dylai'r disgyblion lenwi taflen werthuso mewn ymateb i un cyflwyniad. Gan ddibynnu ar gyfarwyddiadau'r athro/athrawes, gallent lenwi'r daflen fel hunanwerthusiad neu ddewis y cyflwyniad a roddodd y mwynhad mwyaf iddynt a gwerthuso'r cyflwyniad hwnnw.

The Tree Register · Ancient Tree Forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/06/08

Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Cymraeg

Llafaredd/Darllen:

BARDDONIAETH AM GOED

GWEITHGAREDD 2: TAFLEN Y DISGYBL

Cerdd (1):Yng Nghoed y Felenrhyd

Yng Nghoed y Felenrhyd

Ar y bore gwlypa' erioed
Roedd 'na fwsog yng nghesail y coed;
Roedd 'na lofrudd coed rhododendron
Lle lladdwyd Pryderi gan y dewin Gwydion;
Roedd 'na bont fel hanner ceiniog
I groesi o Harlech i Faentwrog;
Roedd 'na hen goed derw mud,
Yn gwybod pob peth, ac yn dweud dim byd;
Roedd hen Afon Prysor hefyd
Yn boddi hyd yn nŵr afon Dwyryd
A mes fel bomiau hyd y llawr
Yn barod i ffrwydro'n gewri mawr;
Roedd Coed Cadw'n cadw'r coed
Ar y bora gwlypa' erioed.

gan rai o ddisgyblion Ysgol Eifionydd,
Porthmadog, gyda chymorth Twm Morys

The Tree Register · ancient tree forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/06/08

Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Cymraeg

Llafaredd/Darllen:

BARDDONIAETH AM GOED

GWEITHGAREDD 2: TAFLEN Y DISGYBL

Cerdd (2): Coed Aberneint

Coed Aberneint

Yng Nghoed Aberneint mae'n dywydd od iawn
Gaea'n y bore a haf yn y p'nawn;
Yng Nghoed Aberneint mae'r maswellt yn crynu
A'r coed cyll bychain bach yn rhynnu;
Yng Nghoed Aberneint mae'r gwynt yn rhuo
A dail yn disgyn fel eira'n pluo;
Yng Nghoed Aberneint mae twrw taran
Gan hen bistyll Afon Aran;
Yng Nghoed Aberneint mae'r olwyn ddŵr
Fu'n codi'r ordd, wedi tewi a'i stŵr.

Yng Nghoed y Pandy mae'r derw'n dena'
Oherwydd y pîn sy'n dwyn y gola';
Yng Nghoed y Pandy mae chwilen y dom
A'r mwd yn ei rwystro fel ffosydd y Somme;
Yn y Parc mae'r pathew yn methu cysgu
'Di'r gwymon a'r ffwng ddim isio cymysgu.

Mae'r ji-binc yn reit anwydog
Mae 'na chwain yn cosi coesau'r draenog ,
Ac oherwydd yr holl firi sydd
Mae'r ystlum yn effro trwy gydol y dydd;
Yn Aberneint mae rhywbeth yn bod
Mae'n ganol Mehefin a'r haf heb ddod,
Ond mae 'na aur o dan y rhedyn
O'r mês y daw coed derw wedyn.

gan rai o ddisgyblion Ysgol y Gader,
Dolgellau, gyda Twm Morys

The Tree Register · ancient tree forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/06/08

Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Cymraeg

Llafaredd/Darllen:
BARDDONIAETH AM GOED

GWEITHGAREDD 2: TAFLEN Y DISGYBL

Cerdd (3):Y Goeden Afal

Y Goeden Afal

Cofiaf
gyfarchion y dail
yn yr awel
yn yr haf.

Cofiaf
y lliwiau
melys
gloyw
yn haelioni'r haf.

Galwyd y dail
i ddilyn y gwenoliaid
ymhell, bell o'r ardd,
a gadael y goeden
yn llwm a digyffro

nes imi roi crawen ar linyn*
a phowlen ar weiren
ynghrog wrth ei brigau gwag.

A heddiw
daeth y lliwiau'n ôl
i siglo a neidio,
i ffoi pan agoraf y drws

ond dychwelant o hyd
i roi lliw ar y brigau llwm.

** crawen – crystyn*

John Hywyn

The Tree Register · ancient tree forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/06/08

Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Cymraeg

Llafaredd/Darllen:
BARDDONIAETH AM GOED

GWEITHGAREDD 2: TAFLEN Y DISGYBL

Cerdd (4):Y Goeden

Y Goeden

Gwelais y Gwanwyn araf
yn concro llymder dy frigau,
ac yna'r dail yn dod
i ysgwyd fel dillad babanod ar y lein.
Daeth arogleuon dy ffresni
trwy ffenestr f'ystafell wely,
i gorddi'r gwaed.

Gwelais yr Haf
yn galw allan dy faneri gwyllt
a rhoi it lawnder ffurf,
nes oeddit fel brenhines falch
yn hawlio'r prynhawniau i gyd,
a'r haul yn suddo i esmwythyd dy fynwes.

Gwelais yr Hydref dolurus
yn sychu'r clwyfau yn dy ddail,
a'th adael ym mwlch y machlud
yn delpyn fflamgoch,
a'th boenau'n gweiddi'n uchel.

Heddiw
mae'r Gaeaf ar dy war
ac nid oes dim cuddedig mwy;
diosgwyd dy ddillad bob pilyn
a gwêl y llygaid manwl
dy golfenni a'th geinciau hagr,
a thithau'n druan diymadferth
yn gywilydd i gyd.

W. Rhys Nicholas

The Tree Register · ancient tree forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/06/08

Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Cymraeg

Llafaredd/Darllen:
BARDDONIAETH AM GOED

GWEITHGAREDD 2: TAFLEN Y DISGYBL

Cerdd (5): Coed

Coed

y mae coed fel angylion

yr oedd criw o gwmpas fy nghartref
ac ynddynt adar yn nythu'n ddu
a'u siarad yn suro'r nos
er na wrandewais
yr oedd coed o gwmpas fy nghartref
a'u brigau'n ddewr heb ddail
a'r awyr yn goch o ddicter a gwaed angau
er nad edrychais

mae coed yn amddiffyn cartref
yn ymgasglu'n dorf warcheidiol gefn nos
ac yn gwadu hawl y gwynt

ac yn fy ngwely
er na sylwais
yr oeddwn innau'n gwybod hynny.

R. Gerallt Jones

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/06/08

Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Cymraeg

Llafaredd/Darllen:

BARDDONIAETH AM GOED

GWEITHGAREDD 2: TAFLEN Y DISGYBL



Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/06/08

Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Cymraeg

Llafaredd/Darllen:
BARDDONIAETH AM GOED

GWEITHGAREDD 2: TAFLEN Y DISGYBL

DEHONGLI CERDD – darllen, llafaredd

- Dewiswch eich hoff gerdd a darllenwch hi eto.
- Paratowch i siarad am y gerdd hon, drwy ychwanegu lluniau i'ch copi chi o'r gerdd. Dylai'r lluniau esbonio sut rydych yn meddwl ac yn teimlo am y gerdd. Gallwch dynnu eich lluniau eich hun neu gasglu delweddau gan ddefnyddio rhaglen Clipart neu chwilio am luniau ar y we. Gallwch, o bosibl, gyflwyno'r gerdd gan ddefnyddio Powerpoint.
- Os dymunwch, gallwch ddefnyddio rhai o'r cwestiynau isod i'ch helpu wrth i chi feddwl am y gerdd. Mae'n bosibl y gallech feddwl am rai cwestiynau eraill y byddai'n well gennych eu hateb.

1. Ydi'r gerdd hon yn eich **atgoffa** o unrhyw beth yr ydych wedi'i weld erioed, neu sydd wedi digwydd i chi erioed?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

2. A yw'r gerdd hon yn eich atgoffa o unrhyw beth yr ydych wedi'i ddarllen o'r blaen?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

3. A oes yna unrhyw beth am y gerdd hon sy'n eich drysu, oes geiriau anodd neu rhywbeth sy'n ymddangos yn rhyfedd neu'n od i chi?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

4. A ydych chi yn hoffi unrhyw beth am y gerdd hon yn ei chyfanrwydd? A oes geiriau neu ymadroddion sy'n arbennig o ystyrlon, emosiynol neu effeithiol i chi?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

3720/06/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Cymraeg

Llafaredd/Darllen:

BARDDONIAETH AM GOED

GWEITHGAREDD 2: TAFLEN Y DISGYBL

5. A ydych yn casáu rhywbeth am y gerdd hon?

.....

.....

.....

.....

.....

6. Pe gallech arddangos y gerdd rywle, ble byddai'r lle gorau i wneud hynny?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

7. Pe gallech siarad â'r bardd, beth fyddech chi'n ei ofyn iddo?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

8. Wrth ddarllen y gerdd, pa fath o olygfa sy'n dod i'ch meddwl? Ble gredwch chi mae'r bardd o fewn yr olgyfa honno?

.....

.....

.....

.....

.....

9. Pe byddai'r gerdd hon yn rhan o stori, pa fath o stori fyddai hi?

.....

.....

.....

.....

.....

10. Pe byddech yn cael dewis sut dylai person ddarllen y gerdd hon, pa fath o lais fyddai orau? Pe byddech yn dewis cerddoriaeth i'w chwarae yn y cefndir, pa fath o gerddoriaeth fyddech chi'n ei ddefnyddio?

.....

.....

.....

.....

.....

3720/06/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Cymraeg

Dehongliad personol o gerdd – llafaredd:

BARDDONIAETH AM GOED

Gweithgaredd 2: TAFLEN Y DISGYBL

HUNAN-WERTHUSO neu WERTHUSO CYFAILL (y cyflwyniad roddodd y mwynhad mwyaf i mi)

Teitl y gerdd: .....

Enw'r person a gyflwynodd y gerdd:

.....

Meini Prawf Llwyddiant *(ticiwch y rhai sy'n addas)*:

Hyder:

Hyderus a chyson iawn	☐
Da	☐
Petrusgar ond yn gwella	☐
Diffyg hyder	☐

Defnydd o iaith, mynegiant a chywair:

Amrywiaeth eang o eirfa a mynegiant, ac yn cadw diddordeb y gynulleidfa	☐
Amrywiaeth dda o fynegiant	☐
Mynegiant clir, gydag ambell i saib	☐
Aneglur	☐

Sylwadau positif eraill am y cyflwyniad:

.....

.....

.....

.....

The Tree Register · ancient tree forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/06/08